# Ffocws ar chwarae

## Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored

**Nodyn ar derminoleg: mae rheoliadau Llywodraeth Cymru'n cyfeirio at chwarae mynediad agored, ond er eglurder a chysondeb gyda'r geiriad a ddefnyddir gan y sector yng Nghymru, rydym yn cyfeirio trwy'r daflen hon at waith chwarae mynediad agored.**

**Ar 18 Mehefin 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS) diwygiedig ar gyfer gofal plant a reoleiddir i blant hyd at ddeuddeg oed. Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi set newydd o Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gwaith chwarae mynediad agored.**

Bwriedir i gyfarwyddyd statudol yr NMS ar gyfer gwaith chwarae mynediad agored a reoleiddir ganiatáu agwedd hyblyg, fydd yn caniatáu i ddarparwyr ddatblygu darpariaeth o safon sydd wedi ei deilwra i fodloni anghenion plant, rhieni a chymunedau lleol. Bwriedir i'r NMS annibynnol adlewyrchu anghenion plant pump i ddeuddeg oed ac i gael eu rhoi ar waith mewn modd cymesur.



## Beth sydd wedi digwydd?

Mae newidiadau wedi'u gwneud i sut gaiff lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored eu rheoleiddio a'u harolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r ddogfen newydd *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Dydd a Reoleiddir – Chwarae Mynediad Agored i blant 5 i 12 oed: canllawiau statudol* yn rhestru'r 19 o safonau gofynnol y mae rhaid i leoliadau eu bodloni. Yn gyffredinol, dylai personau cofrestredig weithio tuag at sicrhau bod y safonau'n cael eu cyflawni'n well na'r gofyn.

Darperir yr NMS mynediad agored newydd ar ffurf dogfen HTML ar-lein ac maent yn benodol berthnasol i leoliadau gwaith chwarae mynediad agored. Yn flaenorol, roedd un set o safonau oedd yn gymwys i bob gofal plant a reoleiddir gyda nifer o eithriadau penodol ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored. Bwriedir i'r safonau newydd adlewyrchu'n well y modd y mae lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored yn gweithredu.

## Sut ymgynghorwyd ar hyn?

Cynhaliwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y newidiadau arfaethedig i'r NMS rhwng mis Medi a Rhagfyr 2025. Roedd hyn yn dilyn cyfranogiad helaeth gan sefydliadau cenedlaethol yn natblygiad fersiwn drafft o'r NMS. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, hwylusodd Chwarae Cymru'r broses ymgysylltu gyda'r sector trwy'r Rhwydwaith Chwarae Mynediad Agored.

## Beth sydd wedi newid yn yr NMS ar gyfer gwaith chwarae mynediad agored?

Ceir nifer o wahaniaethau yn yr NMS diwygiedig:

**Strwythur a threfn** – mae'r NMS bellach ar ffurf dogfen HTML ar-lein fel y gallwch lywio trwy'r amrywiol adrannau. Nawr, mae pob safon yn agor gyda llais y plentyn a deilliant lles, wedi eu dilyn gyda'r safonau, dolenni i'r rheoliadau perthnasol a dolenni i fwy o arweiniad a chefnogaeth.

**Yr hyn a olygir wrth ddarpariaeth o ansawdd uchel** – yn y cyflwyniad ceir adran ar ansawdd sy'n ymwneud â fframwaith ansawdd Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar (ECPLC). Mae'r adran hon hefyd yn cyfeirio'n uniongyrchol at Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae a marc safon gwaith chwarae, *Chwarae o Safon*.

**Diffiniad o waith chwarae mynediad agored** – mae hwn wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'n well natur lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored yng Nghymru.

**Y safonau eu hunain** – mae pob un o'r 19 o safonau ar gyfer gwaith chwarae mynediad agored wedi eu gosod mewn cyd-destun o'r newydd er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fodloni'r rheoliadau ond eu bod hefyd yn adlewyrchu'n fwy agos sut y mae lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored yn dueddol o weithredu.

**Gofynion cymorth cyntaf** – mae'r rhain wedi'u diwygio i adlewyrchu'n well weithrediad lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored. Yn benodol, mae Safon 7.19 yn datgan bod rhaid i o leiaf un unigolyn sydd â chymhwyster cymorth cyntaf (cymorth cyntaf pediatrig llawn) fod yn bresennol bob amser. Mae'n rhaid hefyd bod trefniadau wrth gefn yn eu lle i sicrhau mwy o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf, yn seiliedig ar asesiad risg sy'n adlewyrchu amgylchiadau'r lleoliad a'r mathau o weithgareddau yr ymgymerir â nhw, y lleoliad daearyddol a nifer y plant sy'n mynychu.

**Person addas** – mae'r gofynion cymwysterau a geir yn Safon 10 wedi'u diwygio i'w gwneud yn fwy cymesur ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored. Mae'r gofynion diwygiedig yn nodi bod angen i'r person sydd â chyfrifoldeb feddu ar gymhwyster gwaith chwarae lefel 3 tra bo angen i 50% o'r holl staff eraill feddu ar gymhwyster lefel 2. Am y manylion llawn, darllenwch y safon ynghyd â'r *Rhestr o Gymwysterau Gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru*.

**Meddyginiaeth** – mae'r canllawiau ar gyfer rhoi parasetamol hylifol wedi ei diweddaru i ddarparu safonau mwy eglur.

## Sut mae hyn yn cysylltu gyda'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae?

Cynhaliwyd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae rhwng 2019 a 2022 er mwyn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i siapio sut y mae'n datblygu a symud yr agenda chwarae yn ei blaen. Un o'r themâu allweddol a drafodwyd gan yr adolygiad oedd darpariaeth a rheoleiddio gwaith chwarae. O dan y thema hon, ystyriodd Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae'r cyd-destun cyfredol yn ogystal ag ystod o faterion hanesyddol sy'n ymwneud â rheoleiddio a chofrestru darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio.

Tynnodd yr adolygiad sylw at nifer o heriau yn y modd y caiff lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored eu harolygu a'u rheoleiddio ar hyn o bryd. Yn benodol, galwodd argymhelliad allweddol 11 o adroddiad y grŵp llywio ar i Lywodraeth Cymru adolygu rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd a gorchmynion sy'n ymwneud â gwaith chwarae. Galwodd un o'r cerrig milltir awgrymedig ar gyfer yr argymhelliad allweddol hwn am ddatblygu NMS unigol ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored.

## Ydi hyn yn golygu nad yw gwaith chwarae mynediad agored yn cael ei reoleiddio mor llym â darpariaeth gofal dydd a gwarchod plant arall?

Nid yw'r rheoliadau wedi newid, felly mae dal rhaid i leoliadau gwaith chwarae mynediad agored gydymffurfio â'r rhain. Gall sut caiff yr NMS eu rhoi ar waith amrywio o ystyried natur y lleoliad ei hun ond mae'r person cofrestredig mewn lleoliad mynediad agored yn dal i fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn bodloni'r rheoliadau a'u bod yn talu sylw dyledus i'r NMS gwaith chwarae mynediad agored.

## Beth am gofrestriadau ar gyfer darparwyr mynediad agored sy'n gweithio mewn mwy nag un lleoliad?

Yn dilyn argymhellion yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried newidiadau posibl i gefnogi agwedd gymesur tuag at gofrestru ac arolygu lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored peripatetig, gyda darparwyr gwaith chwarae mynediad agored yn gallu cofrestru unwaith gyda dull risg-budd i ychwanegu lleoliadau ychwanegol. O ganlyniad, mae Arolygiaeth Gofal Cymru'n gweithio tuag at adolygu'r newidiadau angenrheidiol i'r prosesau cofrestru ac arolygu er mwyn galluogi darparwyr gwaith chwarae mynediad agored peripatetig i gwblhau un cais cofrestru fydd yn cynnwys yr holl leoliadau ble byddant yn trosglwyddo'r gwasanaeth o fewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig.



## Oes rhaid i bob lleoliad gwaith chwarae mynediad agored gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru?

Ynghyd â'r adolygiad o'r NMS, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad hefyd o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Daw'r newidiadau hyn i rym o fis Ebrill 2027. Ar hyn o bryd, ac yn unol â'r diwygiadau newydd, nid oes rhaid i leoliadau gwaith chwarae mynediad agored gofrestru os yw'r:

- gwasanaeth yn weithredol am bum diwrnod neu lai mewn unrhyw flwyddyn galendr
- gwasanaeth yn weithredol am ddwy awr neu lai y diwrnod.

Mae'r eithriadau'n eang eu cwmpas a dylai lleoliadau wirio adran Gofal Dydd a Reoleiddir – Chwarae Mynediad Agored yr NMS am y rhestr ddiweddaraf o eithriadau.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y newidiadau i'r NMS, cysylltwch â ni ar gweithlu@chwarae.cymru**


© Chwarae Cymru